

CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL LLANILAR

4.00 – 4.35pm, 2 Chwefror 2022

Presennol drwy Teams:	Cyng Meic Francis (Cadeirydd), Cyng Meirion Davies, Tracy Deakins, Mary Evans, Betsan Llewelyn-Jones, Gwyndaf Lloyd, Branwen Rhys, Lowri Steffan, Menna Sweeney, Janette Jones (Pennaeth) Nerys Jones (Sylwedydd)
	Wendy Jones (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredu gan*:
	CYFLWYNIADAU:	
	<p>Cafwyd cyflwyniad gan Dylan ar waith y Llysgenhadon Gwych. Roedd Dylan a Mabli wedi'u penodi yn Llysgenhadon Gwych a gosodwyd tasg iddynt gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru i ystyried sut y gallai Ysgol Llanilar gefnogi lles disgyblion a sicrhau bod pob disgybl yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth. Yn dilyn trafodaeth gyda phob dosbarth, lluniwyd cynllun er mwyn symud ymlaen. Lluniodd y disgyblion Fapiau Meddwl, Geiriau Llesiant a Phwerbwytiau i gofnodi eu trafodaethau a rhannu eu syniadau.</p> <p>Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Mwy o Ddiwrnodau Lles - rhannwyd holiaduron eisoes gyda disgyblion yn gofyn am syniadau ar gyfer y Diwrnodau Lles.2. Edrych yn fanylach ar faes Iechyd a Lles3. Un diwrnod di-sgrin yr wythnos - cynhaliwyd trafodaethau eisoes gyda'r disgyblion ac ymateb cymysg a gafwyd. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda disgyblion a staff i sicrhau bod pawb yn cytuno â'r syniad. <p>Anfonwyd neges e-bost at Sally Holland yn amlinellu'r gwaith a wnaed mewn ymateb i'w thasg. Cafwyd ymateb gan un o gydweithwyr Sally Holland yn canmol gwaith y Llysgenhadon Gwych a'r ysgol.</p> <p>Gofynnodd Aelod i Dylan beth oedd e'n ei feddwl am y diwrnod di-sgrin. Roedd Dylan o'r farn y byddai'n syniad da ac yn llesol i olwg disgyblion.</p> <p>Gofynnwyd i Dylan hefyd sut roedd e'n teimlo am ei rôl fel Llysgennad Gwych.</p>	

Cofnod o Draffodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredu gan*:
	<p>Teimlai ei bod yn rôl bwysig a'i bod yn bwysig adrodd am eu gwaith i'r Llywodraethwyr.</p> <p>Gofynnodd Aelod hefyd beth fyddai'r disgyblion yn ei wneud ar ddiwrnodau di-sgrin.</p> <p>Byddai syniadau'n cael eu trafod gyda'r disgyblion a byddent fwy na thebyg yn cynnwys gweithgareddau awyr agored.</p>	
1	YMDDIHEURIADAU:	
	Roedd pob Aelod yn bresennol.	
2	DATGAN BUDDIANT/CYFRINACHEDD:	
	Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau:	
	a) o'r angen i ddatgan eu buddiant mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu dan drafodaeth mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethol lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod;	
	b) y byddai unrhyw ddatgan buddiant yn cael ei gofnodi;	
	c) bod eitemau a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.	
3i	COFNODION:	
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021; byddent yn cael eu llofnodi ar ddyddiad hwyrach oherwydd cyfyngiadau Covid-19.	
3ii	MATERION YN CODI O'R COFNODION:	
	<p>a) Cofnod 2iii - Penodi Is-gadeirydd:</p> <p>Cadarnhaodd Gwyndaf Lloyd ei fod yn derbyn rôl Is-gadeirydd ar gyfer 2021/2022.</p> <p>PENDERFYNWYD nodi'r newidiadau a ganlyn i Aelodaeth y Corff Llywodraethol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd Nia Evans wedi ymddiswyddo o'i swydd yn yr ysgol. Yn dilyn trafodaeth yn ystod cyfarfod staff, penodwyd Mary Evans yn Llywodraethwr Staff am gyfnod o bedair blynedd; • Roedd Rhiannon Salisbury wedi ymddiswyddo o'i swydd yn yr ysgol. Yn dilyn trafodaeth yn ystod cyfarfod staff, cytunwyd y dylid penodi Greg Vearey-Roberts yn Athro-lywodraethwr am gyfnod o bedair blynedd. Byddai Greg yn ymgymryd â'r swydd ar ôl y toriad am hanner tymor ar 28 Chwefror 2022. 	
4	COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGORAU:	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredu gan*:
	<p>Pwyllgor y Cwricwlwm:</p> <p>Adroddodd y Pennaeth bod cyfarfod o Bwyllgor y Cwricwlwm wedi'i gynnal a chafwyd cyflwyniad gan Ceri ar Fathemateg a Rhifedd yn ystod y cyfarfod; roedd hefyd ar gael ar Teams.</p> <p>Mae un maes dysgu a phrofiad yn arwain pob hanner tymor; ymgorfforwyd gwybodaeth am y monitro a'r casglu tystiolaeth a wneir a'r cynlluniau ar gyfer symud ymlaen yn rhan o'r cyflwyniad.</p> <p>Iaith fyddai'r Maes Arwain yn ystod hanner cyntaf tymor y Gwanwyn 2022, ac ar ddiwedd yr hanner tymor byddai trafodaeth yn cael ei chynnal ar yr hyn sy'n bwysig i Lanilar ei ddysgu o ran pob maes dysgu yn y Cwricwlwm Newydd. Byddai hyn yn cael ei werthuso a byddai holiaduron yn cael eu rhannu gyda'r staff a'r disgyblion er mwyn paratoi cynlluniau wrth symud ymlaen.</p> <p>Y Pwyllgor Cyllid:</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod gyda Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lleol eisoes ac roedd y gyllideb yn iach yn sgil nifer o grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad i hyn, roedd yr ysgol mewn sefyllfa i hysbysebu am Gynorthwydd Addysgu 2 i gefnogi disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Byddai'r Pennaeth naill ai'n hysbysebu neu'n gofyn i asiantaethau am aelod staff i ddechrau ar ôl gwyliau'r Pasg.</p> <p>Nid oedd y ffurflen Monitro Ariannol ar gael eto.</p> <p>Archwiliad Iechyd a Diogelwch:</p> <p>Roedd yr Archwiliad wedi'i gwblhau a'i ddisbarthu i Gwyndaf Lloyd a Tracy Deakins i'w gymeradwyo. Byddai'r Pennaeth yn anfon yr Archwiliad ymlaen i'r Awdurdod Lleol maes o law.</p>	
5	<p>CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER CEFNOGI LLYWODRAETHWYR:</p> <p>Dosbarthwyd copïau o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer clercio'r Cyrff Llywodraethol eisoes i'r Aelodau. Yn dilyn trafodaeth PENDERFYNWYD:</p> <p>Prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer clercio'r Cyrff Llywodraethol am y flwyddyn ariannol 2022/2023 am gost o £1,022.48.</p>	
	<p>Bod y dyddiadau a ganlyn wedi'u pennu ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol yn 2022/2023:</p> <p>Tymor yr Haf: 15/06/2022</p> <p>Tymor yr Hydref: 19/10/2022</p> <p>Tymor y Gwanwyn: 01/02/2023</p>	
	<p>Peidio â phrynu'r gwasanaeth cyfieithu ar gyfer adroddiadau.</p>	

Cofnod o Draffodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredu gan*:
6	ADRODDIAD Y PENNAETH:	
	Dosbarthwyd copi o adroddiad y Pennaeth eisoes i'r Aelodau. Cafwyd trafodaeth ar y canlynol:	
a)	CYNLLUN DATBLYGU YSGOL: Roedd y ddogfen a amlinellai'r cynnydd a wnaed yn sgil adolygu'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Datblygu Ysgol eisoes wedi'i dosbarthu i'r Aelodau. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • Cynhelir prosesau monitro a gwerthuso'r addysgu yn rheolaidd. Cyflwynir holiaduron ac mae'r ymatebion yn cael eu gwerthuso a'u crynhoi; • Gobeithid y byddai'n bosibl gwahodd y Llywodraethwyr i'r ysgol i weld gwaith y disgyblion a'r system farcio sydd ar waith. Byddai hyn yn digwydd pan fyddai cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu hynny. 	
b)	Data Disgyblion: Nifer ar y gofrestr: 120 (Tymor y Gwanwyn 2021)	
c)	Gweithdy 1: Roedd Gweithdy 1 wedi'i gynnal gyda Mair Potter, Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion, ac roedd yr adroddiad yn un cadarnhaol iawn. Nodwyd mai un o gryfderau'r ysgol oedd ei gallu i hunanwerthuso yn onest ac i werthuso ymatebion i holiaduron a gweithredu arnynt.	
d)	Diogelu: Nifer yr achosion o fwlio yr adroddwyd arnynt - 0	
6ii	CYFRIF ARIANNOL PREIFAT YR YSGOL:	
	PENDERFYNWYD nodi bod y cyfrif yn cael ei archwilio ac y byddai adroddiad ar gael i'r Aelodau yn ystod cyfarfod tymor yr Haf 2022.	
7	HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:	
	Hysbysodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau bod pob Llywodraethwr wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Byddai Fforwm Llywodraethwyr Ceredigion yn cael ei gynnal 16 Chwefror 2022 am 6.30pm drwy Zoom.	
8i	POLISIŌAU - DOGFENNAU STATUDOL:	
	PENDERFYNWYD nodi bod y Dogfennau Statudol a ganlyn wedi'u hadolygu, eu mabwysiadu gan yr Aelodau a'u llofnodi gan y Cadeirydd: Dogfennau Statudol:	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredu gan*:
	<p>Adroddiad Blynyddol Rhieni/Llywodraethwyr</p> <p>Cofrestru Buddiannau Busnes</p> <p>Cynllun Datblygu Ysgol</p> <p>Prosbectws/Llawlyfr yr Ysgol</p> <p>Adroddiad Hunanwerthuso gan yr Ysgol</p> <p>Cynllun Hygyrchedd</p> <p>Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Ysgol</p> <p>Trefniadau Asesu (statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2/3)</p> <p>Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth</p> <p>Lwfansau Llywodraethwyr: PENDERFYNWYD nodi na fyddai taliadau'n cael eu gwneud i'r Aelodau ar gais.</p> <p>Offeryn Llywodraethu</p> <p>Cofnodion a Phapurau Cyfarfodydd a Phwyllgorau'r Corff Llywodraethol</p> <p>Cofrestr Disgyblion</p> <p>Cynlluniau Pontio</p>	
8ii	YMGYNGHORIAD - POLISI DERBYN 2023-2024:	
	PENDERFYNWYD nodi bod yr ymgynghoriad eisoes ar gael i'r Aelodau. Hysbysodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau y dylai unrhyw sylwadau ar y cynigion gael eu gwneud i'r Awdurdod Lleol ddim hwyrach nag 01 Mawrth 2022.	
8iii	POLISI URDDAS YN Y GWEITHLE I YSGOLION:	
	Dosbarthwyd copi o'r Polisi eisoes i'r Aelodau. Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi.	
8iv	POLISI RHEOLI ABSENOLDEB O'R GWAITH OHERWYDD SALWCH:	
	Dosbarthwyd copi o'r Polisi eisoes i'r Aelodau. Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi.	
9	UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD O FLAEN LLAW:	
a)	<p>Atgyfeiriadau Therapi Lleferydd ac Iaith:</p> <p>Mynegodd y Pennaeth bryder bod 7 atgyfeiriad lleferydd ac iaith wedi'i wneud i'r Awdurdod Lleol mewn dosbarth o 25 disgybl. Roedd hyn yn sylweddol uwch na'r arferol ond dyma'r patrwm ar draws pob ysgol. Byddai'r Awdurdod Lleol yn darparu cynllun gwaith ar gyfer y disgyblion a atgyfeiriwyd; fodd bynnag, byddai hyn yn cael effaith ar yr ystafell ddosbarth gan y byddai Cynorthwyydd Addysgu yn ymgymryd â'r gwaith ychwanegol.</p>	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredu gan*:
b)	<p>Strwythur Dosbarthiadau:</p> <p>Hysbysodd y Pennaeth yr Aelodau bod saith blwyddyn ysgol wedi'u rhannu'n bump o ddosbarthiadau yn yr ysgol a bod rhannu'r disgyblion yn achosi problemau bob blwyddyn academiaidd.</p> <p>PENDERFYNWYD penodi Betsan Llewelyn-Jones, Branwen Rhys a Tracy Deakins, fel Rhiant-lywodraethwr, i bwyllgor i drafod y ffordd orau o rannu disgyblion i ddosbarthiadau gan y byddai'n rhaid rhannu blynyddoedd ysgol. Cynigiodd Menna Sweeney gynorthwyo mewn rôl ymgynghorol hefyd yn sgil ei phrofiad o ddelio â mater o'r fath. Byddai'r Pennaeth yn galw cyfarfod yn ystod tymor yr Haf 2022.</p>	
c)	<p>Y Diwrnod Ysgol:</p> <p>Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, rhannwyd yr ysgol yn ystod dau amser egwyl ond roedd hyn yn golygu bod staff ar ddyletswydd gydol y diwrnod. Roedd un amser egwyl yn weithredol erbyn hyn; trefnwyd bod dau ddosbarth yn chwarae ar y cae, ond arweiniai hyn at ddillad mwdlyd gan y disgyblion.</p>	
10	DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:	
	PENDERFYNWYD nodi y byddai'r cyfarfod nesaf o'r Corff Llywodraethol Llawn yn cael ei gynnal 15 Mehefin 2022.	

WJ
3/2/2022